FFEDERASIWN CENEDLAETHOL CLYBIAU FFERMWYR IFANC
NATIONAL FEDERATION OF YOUNG FARMERS' CLUBS

POLISI - POLICY

IECHYD A DIOGELWCH

HEALTH AND SAFETY

Diweddarwyd		Revised
Awst 06		August 06

POLISI IECHYD A DIOGELWCH CFfI

Cynnwys

1. Cyflwyniad
2. Pam ddylid cael Polisi Iechyd a Dioglewch?
3. Datganiad o Fwriad
4. Trefn Rheoli Diogelwch CFfI

   4.1Y Polisi
   4.2Trefniadau'r Mudiad.
   4.3Cynllunio a Gweithredu Iechyd a Dioglewch – Asesiadau Risg
   4.4Mesur Perfformiad
   4.5Adolygu Perfformiad

5. Trefniadau Cyffredinol Mewn Digwyddiadau

   5.1Adrodd am Ddamweiniau.
   5.2Trefniadau Tân.

6. Hyfforddi ac Anwytho Staff
7. Apwyntio Swyddog Iechyd a Diogelwch CFfI
8. Rhestr o dermau a ddefnyddiwyd
9. Darllen Pellach / Deunydd Cyfeirio

Atodiad 1 – Datganiad o Fwriad CFfI Cymru

Atodiad 2 – Enghraifft o Ddisgrifiad Swydd Swyddog Iechyd a Dioglewch a benodir gan y CFfI.

Atodiad 3 – Enghreifftiau o Asesiadau Risg: *Rali Sirol*

Dawns CFfI

Cystadleuaeth Pantomeim

Barnu Stoc

Atodiad 4 – Ffurflen Cofnodi Damweiniau.

Atodiad 5 – Manylion Cyswllt Canolfan Argyfwng.

POLISI IECHYD A DIOGELWCH CFfI

1. CYFLWYNIAD

Mae CFfI Cymru wedi ymroddi i ddarparu amgylchedd ddiogel ble y gall pobl ifanc fwynhau'r ystod llawn o weithgareddau a gynigir gan y CFfI.

Pwrpas y ddogfen hon yw cynnig arweiniad i Arweinyddion Clybiau, Swyddogion Etholedig, aelodau pwyllgor, a staff cyflogedig, i'w cynorthwyo i drefnu a darparu ystod eang ac amrywiol o weithgareddau CFfI, sy'n galluogi pobl ifanc i gyrraedd eu potensial o fewn amgylchedd ddiogel.

Mae CFfI Cymru yn cydnabod fod darparu amgylchedd hollol ddiogel neu amgylchedd sy'n rhydd o bob risg yn amhosibl, ac yn wir, mae dysgu i adnabod a rheoli risg yn rhan bwysig o'r broses o ddatblygu o blentyndod i fyd oedolion.

Bwriad Polisi Iechyd a Dioglewch CFfI yw galluogi personnel CFfI i adnabod risg, i'w reoli mewn dull cost effeithiol ac felly darparu amgylchedd ar gyfer gweithgareddau CFfI ble mae risgiau i iechyd, dioglewch a lles aelodau CFfI yn cael eu lleihau.

2. PAM Y DYLID CAEL POLISI IECHYD A DIOGELWCH?

Mae'n angenrheidiol yn unol â Deddf Iechyd a Diogelwch 1974 fod unrhyw fudiad sy'n cyflogi 5 neu fwy o bobl yn berchen ar bolisi ysgrifenedig yn ymwneud â Iechyd a Diogelwch eu gweithwyr a phobl eraill a effeithir gan weithgareddau'r mudiad. Er nad oes gan y mwyafrif o Ffederasiynau Sirol a chlybiau fwy na 5 o weithwyr cyflogedig, bydd ganddynt, yn y prif ddigwyddiadau, fwy na 5 o bobl dan eu cyfarwyddyd, gyda'r mwyafrif yn gweithredu'n wirfoddol. Oherwydd hynny, mae angen i CFfI Cymru gael Polisi Iechyd a Dioglewch ysgrifenedig.

Hyd yn oed pe na byddai angen i gwrdd â gofynion Deddf Iechyd a Dioglewch 1974 trwy gynhyrchu polisi Iechyd a Diogelwch ysgrifenedig, mae natur y CFfI fel mudiad sy'n gyfrifol am ddatblygiad personol pobl ifanc sy'n byw yng nghefn gwlad yn golygu ei bod yn arddangos ei ymroddiad i les pobl ifanc trwy fabwysiadu polisi Iechyd a Dioglewch ar bob lefel o'r mudiad.

3. DATGANIAD O FWRIAD

Rhan bwysig o'n polisi Iechyd a Dioglewch yw'r Datganiad o Fwriad, sy'n amlinellu ymroddiad y mudiad i ddarparu amgylchedd ddiogel ar gyfer yr unigolion a effeithir gan weithgareddau CFfI Cymru.

Mae Datganiad o Fwriad CFfI Cymru wedi'i gynnwys yn atodiad 1 y ddogfen hon i bwrpas cyfeirio.

Yn ychwanegol i ymroddiad y mudiad i greu diwylliant o Iechyd a Dioglewch, mae'r datganiad o fwriad yn adnabod yn glir yr angen i'r holl bersonnel sy'n ymwneud â'r CFfI i greu diwylliant o ddiogelwch, ac i adnabod ein cyfrifoldebau ein hunain, fel unigolion, i weithredu ein "Dyletswydd Gofal" er mwyn creu amgylchedd ddiogel ar gyfer ein hunain ac eraill.

4. TREFN RHEOLI DIOGELWCH CFfI

Mae 5 rhan allweddol i Drefn Rheoli Diogelwch CFfI: sef y polisi; trefniadau'r mudiad; cynllunio a gweithredu gweithdrefnau diogelwch; monitro perfformiad diogelwch; ac adolygu perfformiad.

Gellir darlunio hyn fel â ganlyn:



Byddwn yn edrych yn unigol ar y rhannau a grybwyllir uchod.

4.1 Y Polisi

Pwrpas Polisi Iechyd a Diogelwch CFfI Cymru yw arddangos ymroddiad y mudiad i ddarparu amgylchedd ddiogel ar gyfer aelodau CFfI, cefnogwyr, staff ac aelodau'r cyhoedd a all gael eu heffeithio gan ein gweithgareddau.

Bydd y polisi yn amlinellu'r camau y byddwn yn eu cymryd, fel mudiad, i ddarparu amgylchedd ddiogel ar gyfer yr holl unigolion a effeithir gan ein gweithgareddau.

Bydd y mudiad yn arddangos ei ymroddiad i iechyd a diogelwch trwy hyrwyddo diwylliant o ddiogelwch ymhob digwyddiad CFfI. Ym mhob digwyddiad CFfI, boed yn gyfarfod Clwb lleol neu'n Rali Sirol, bydd "person cyfrifol" yn cael ei benodi i arwain a chymryd cyfrifoldeb ar ran y mudiad am iechyd, diogelwch a lles yr holl gyfranogwyr.

Mae trefn reoli diogelwch lwyddiannus yn golygu fod angen i holl bersonnel CFfI Cymru sy'n ymwneud â digwyddiad penodol fod yn deall yn glir eu cyfrifoldebau unigol o ran diogelwch. Bydd y "person cyfrifol" a apwyntir yn sicrhau fod holl bersonnel CFfI sy'n ymwneud â'r digwyddiad dan sylw yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau unigol, yn cynnwys y "dyletswydd gofal" y mae'n rhaid i aelodau CFfI ei arddangos tuag atynt eu hunain ac aelodau CFfI eraill.

4.2 Trefniadau'r Mudiad

Mae CFfI yn cael ei gynnal yn wirfoddol yn bennaf, gan ddefnyddio gwirfoddolwyr yn hytrach na phobl a gyflogir; mae'r swyddogion etholedig o fewn ystod oedran y mudiad ac felly'n ifanc; mae arweinyddion y mudiad yn cael eu hethol am gyfnod o ddim mwy na blwyddyn fel arfer; mae'r strwythr yn creu sawl her o safbwynt llwyddo i gynllunio a darparu amgylchedd ddiogel ar gyfer gweithgareddau CFfI, ac un sy'n cyd-fynd â gofynion Rheoliadau Rheolaeth Iechyd a Dioglewch yn y Gweithle 1999. (*Dalier sylw: yn y cyd-destun hwn cyfeirir at weithgareddau a ymgymerir yn wirfoddol yn ogystal â gwaith cyflogedig)*.

Mae CFfI Cymru yn argymell yn gryf, er mwyn cwrdd â'n gofynion yn unol â'r rheoliadau, yn ysbryd yn ogystal â llythyren y ddeddf, fod pob Ffederasiwn Sirol CFfI yn apwyntio person aeddfed i fod yn gyfrifol am Iechyd a Dioglewch ledled y Sir. Mae disgrifiad swydd enghreifftiol wedi'i gynnwys yn Atodiad 2, yn amlinellu rolau a chyfrifoldebau deilydd y swydd.

Rôl allweddol ar gyfer y Swyddog Iechyd a Dioglewch apwyntedig fydd sicrhau fod "person cyfrifol" yn cael ei apwyntio ymhob digwyddiad CFfI. Ar lefel Clwb, er enghraifft, gall yr Arweinydd Clwb fod yn ymgymryd â'r dyletswyddau hyn.

Dylid adnabod y “person gyfrifol” yn glir ymhob digwyddiad, a dylai’r person fod yn gymwys ar gyfer y gwaith dan sylw. Disgrifir bod yn gymwys fel bod yn berchen ar y sgiliau, y wybodaeth a’r profiad i gwblhau’r dasg dan sylw yn unol â safon dderbyniol. Dylai hyfforddiant Iechyd a Dioglewch fod ar gfael i’r rhai a adnabyddir fel “personau cyfrifol” i sicrhau eu bod yn gymwys i ymgymryd â’u dyletswyddau – gallai CFfI Cymru ddarparu’r hyfforddiant hwn neu fe fyddai modd ei drefnu’n lleol gyda cymorth y Cyngor Sir, eich Coleg Addysg Bellach lleol, y Siambr Fasnach neu ddarparwyr hyfforddiant lleol.

4.3 Cynllunio a Gweithredu Iechyd a Dioglewch – Asesiadau Risg

Mae ymgymryd ag asesiad risg ar gyfer pob gweithgaredd yn gosod sail ar gyfer amgylchedd “CFfI” ddiogel. Mae Adran 3 Rheoliadau Rheoli Iechyd a Diogelwch yn y Gweithle 1999 yn gosod cyfrifoldeb ar bob cyflogwr (yn y cyd-destun hwn golyga hynny CFfI) i asesu’r risg i weithwyr ac unrhyw rai eraill a effeithir gan eu busnes neu weithgareddau. (*Dalier sylw: yn y cyd-destun hwn, gall y term gweithiwr olygu person a gyflogir neu berson sydd o dan gyfarwyddyd y cyflogwr, megis unigolion sy’n gweithredu’n wirfoddol).*

Cynhelir asesiad risg i adnabod risgiau i iechyd a diogelwch i unrhyw berson, yn arwain o neu’n gysylltedig â gweithgarwch y mudiad. Dylai adnabod sut mae risgiau’n ymddangos a sut y gallant ddylanwadu ar y rhai a effeithir ganddynt. Mae angen y wybodaeth hwn er mwyn penderfynnu sut i reoli’r risgiau hynny fel y gellir gwneud penderfyniadau cytbwys, rhesymol a strwythuredig, ac i sicrhau fod y dull o weithredu yn gydnaws â lefel y risg a adnabyddir.

Bydd asesiad risg yn ymwneud ag adnabod y peryglon sy’n bresennol mewn gweithgaredd neu ddigwyddiad. Adnabyddir perygl fel rhywbeth sydd â photensial i greu niwed, a’r risg yw’r tebygolrwydd o niwed potensial yn codi o’r perygl.

Risg = tebygolrwydd o niweidio * difrifoldeb potensial y niwed a all ddigwydd

Mae sawl mudiad yn defnyddio sustem sgorio, megis 1-5, neu drefn raddio UCHEL CANOLIG ISEL, i asesu risg, fel â ddarlunir yn y tablau isod.



Difrifoldeb potensial y niwed a all ddigwydd

Tebygolrwydd o niweidio



Difrifoldeb potensial y niwed a all ddigwydd

1 = Uchel
5 = Isel

Yn nhabl 1, ble mae’r mesur o risg yn 9 neu’n uwch, dylid gweithredu i unioni’r sefyllfa. Mae sgoriau o 16 neu’n uwch yn golygu osgoi’r gweithgaredd dan sylw yn gyfangwbl neu adolygu’r cynlluniau. Yn yr un modd, wrth ddefnyddio’r drefn sgorio UCHEL CANOLIG ISEL, mae’r sgoriau risg yn y blychau sydd wedi’u tywyllu yn golygu fod angen gweithredu i leihau y risg.

Enghreifftiau:

1) *Gêm beldroed gyfeillgar rhwng Clybiau*

Beth yw'r tebygolrwydd o niweidio? Gall tacl arwain at anaf i'r chwaraewyr ar y maes chwarae. Dyma un o'r peryglon potensial sy'n rhan o'r gêm. Os yw'r dyfarnwr yn beldroediwr profiadol, yn deall rheolau'r gêm, yn sicrhau fod y chwaraewyr yn cynhesu yn briodol cyn cychwyn y gêm, ac yn sicrhau fod y dorf yn cadw pellter addas rhyngddynt hwy a'r gweithgareddau, bydd y risgiau'n is (adran potensial i greu niwed) nag y byddent mewn sefyllfa ble nad oes gan y dyfarnwr wybodaeth drylwyr o'r gêm ac felly yn fwy parod i oddef safonnau is o ymddygiad yn ystod y gêm. Gyda tacl, gall y tebygolrwydd o niweidio difrifol fod yn uchel, gan arwain at asgwrn neu ewyn wedi'i niweidio/anaf i linyn gar.

Er mwyn asesu'r sefyllfaoedd a all ddigwydd (ar raddfa 1 – 5 ble mae 1 yn isel, 5 yn uchel):

Defnyddio dyfarnwr cymwys

Risg = tebygolrwydd o niweidio * difrifoldeb potensial y niwed a all ddigwydd

Risg = 2 * 4 = 8

Mae hyn yn annerbynniol

Defnyddio dyfarnwr di-brofiad

Risg = 3 * 4 = 12

Dylid gweithredu er mwyn codi safon dyfarnu'r gêm.

2) Cystadleuaeth Barnu Anifeiliaid Byw

Mae risg gynhenid yn bodoli mewn sefyllfaoedd ble mae anifeiliaid yn bresennol, oherwydd maent o ran natur yn anrhagweladwy ac yn aml yn ymddwyn yn groes i'r hyn a ddymunir neu a ddisgwylir. Oherwydd hynny, dylai'r anifeiliaid fod yng ngofal tywyswyr profiadol mewn amgylchiadau o'r fath, a dylai ardal y gweithgarwch fod wedi'i amgau â ffens ddiogel i ddiogelu aelodau'r cyhoedd neu'r gynulleidfa pe digwyddai i anifail ddianc. Dylid sefydlu cynllun eglur a gytunwyd o flaen llaw i sicrhau fod aelodau CFfI yn gallu ymneilltuo o'r cylch barnu a'r perygl potensial, pe digwyddai anffawd o'r fath. Adnabyddir hyn fel eich Cynllun Argyfwng ar gyfer y digwyddiad.

O dan yr amgylchiadau hyn, bydd y risg yn cael ei leihau trwy sicrhau fod tywysydd anifeiliaid profiadol yn gyfrifol am yr anifal/anifeiliaid, trwy ddefnyddio anifeiliaid sy'n gyfarwydd â chael eu trin a'u trafod yn y cylch barnu, trwy godi ffens ddiogel i wahanu'r gystadleuaeth oddi wrth y gynulleidfa, a thrwy sefydlu cynllun gweithredu eglur ar gyfer gwagio'r cylch pe byddai angen gwneud hynny.

Yn yr achos hwn, byddai'r risg yn cael ei ystyried yn un gweddol uchel, oherwydd gallai difrifoldeb potensial y niwed fod yn niweidiol iawn, yn arwain at anaf difrifol neu hyd yn oed marwolaeth.

Risg = tebygolrwydd o niweidio * difrifoldeb potensial y niwed a all ddigwydd

Risg = 2 * 5 =10.

Ar ei orau, byddai'r digwyddiad hwn yn un risg canolig, oherwydd oblygiadau delio ag anifeiliaid byw.

Wrth gynllunio digwyddiad o unrhyw fath, mae'n bwysig ystyried peryglon potensial y digwyddiad. Ar gyfer cyfarfod Clwb rheolaidd mewn lleoliad sefydlog, dylai hyn fod yn weddol eglur ac ni fyddai angen gweithredu oni digwyddai newid i drefn neu osodiad yr adeilad, neu os y defnyddir lleoliad newydd. Yn yr un modd, wrth groesawu aelod newydd i'r clwb, dylid egluro yn gryno iddo/iddi am drefn yr adeilad a threfniadau cyffredinol y Clwb.

Ar gyfer digwyddiad mwy sylweddol, megis Rali Sirol, dylid cynnal Asesiad Risg gan ddilyn y patrwm a ddarperir gan CFfI Cymru (gweler Atodiad 3). Yn y cyfnod sy'n arwain at y digwyddiad, dylai Trefnydd y Rali a'r person a apwyntir i fod â chyfrifoldeb penodol am Iechyd a Diogelwch yn y digwyddiad roddi

ystyriaeth fanwl i bob agwedd o'r digwyddiad er mwyn adnabod y peryglon potensial, ac mae angen sefydlu mesurau i leihau'r risg sy'n deillio o bob perygl.

Wedi cwblhau Asesiad Risg ac adnabod sgôr risg yr holl beryglon, y cam nesaf yw cytuno ar gynllun gweithredu sy'n gysylltedig a phob perygl. Mae'r hierarchaeth o ddewisiadau sydd ar gael i chwi fel â ganlyn:

(a) Cael gwared o'r perygl. Dylid gweithredu yn y modd hwn os y credir fod risg y digwyddiad yn rhy uchel i'w ystyried yn ddiogel a'i fwriad yw cael gwared o'r risg yn ei ffynhonell trwy atal cyswllt â'r perygl.

(b) Osgoi y perygl trwy drefnu gweithgaredd arall.

(c) Cyflwyno dull ddiogel o weithio, megis defnyddio tywyswyr anifeiliaid profiadol fel a nodir yn yr enghraifft uchod, gan ddefnyddio pobl brofiadol i ymgymryd â'r dasg dan sylw.

(d) Lleihau cyswllt â'r perygl trwy, o ddefnyddio'r enghraifft barnu stoc, sicrhau mai'r rhai sy'n cystadlu gaiff fod yn y cylch a neb arall, a dylai'r rhai sy'n disgwyl cyfle i gystadlu aros y tu allan i'r cylch oddi wrth y perygl. Mae'r mesur hwn o reolaeth yn lleihau'r amser cyswllt â'r perygl.

(e) Defnyddio dillad amddiffynnol a fydd yn rhoi peth amddiffyniad i'r rhai ddaw i gyswllt â'r perygl. Bydd hyn yn amrywio yn dibynnu ar y perygl, er enghraifft het galed neu siaced fflworoleuol.

4.4 Mesur Perfformiad

Mae hyn yn rhan hanfodol o unrhyw gyfundrefn Rheoli Dioglewch, gan ei fod yn eich galluogi i wneud newidiadau i drefn gweithredu yn ystod cyfnod y gweithgaredd, mewn ymateb i amgylchiadau a digwyddiadau. Mae'n bwysig ein bod, fel mudiad, yn adnabod y Sustemau Dioglewch sy'n llwyddiannus ar gyfer y CFfI, a'r rhai sy'n llai llwyddiannus.

Mae'n bwysig, yn ystod y digwyddiad, fod y "person sy'n gyfrifol" am Iechyd a Dioglewch yn ymwybodol o ba mor lwyddiannus yw gweithrediad y sustemau dioglewch a sefydlwyd o ganlyniad i'r asesiad risg. Dylid gweithredu newidiadau, fel bo'r galw, fel aiff y digwyddiad yn ei flaen. Dylai'r mudiad groesawu hyn a'i ystyried yn ddull o wella'r amgylchedd ddiogel ar gyfer aelodau CFfI, yn hytrach na'i ystyried yn ymyrraeth di-angen.

Dyali'r "person cyfrifol" fod â'r awdurdod i atal y digwyddiad os yw ef/hi yn ystyried fod y risg yn rhy uchel i'r unigolion dan sylw, boed yn aelodau CFfI, cefnogwyr, aelodau staff neu'r cyhoedd.

4.5 Adolygu Perfformiad

Er na allwn ddarparu amgylchedd sy'n hollol rydd o risgiau, gellir darganfod mewn achosion o ddamweiniau sy'n arwain at niwed neu golled fod y Sustemau Diogelwch yn annigonnol. Oherwydd hynny mae'n bwysig ein bod yn adolygu'r hyn aeth o'i le ac a arweiniodd at y ddamwain, beth ddylid fod wedi'i wneud ond na chafodd ei gyflawni y tro hwn, a pham na chymerwyd y camau cywir– a oedd y personnel yn y digwyddiad yn ddi-brofiad ac anghymwys, a oedd diffyg amser, neu a ddigwyddodd oherwydd digwyddiadau y tu hwnt i'n rheolaeth?

Yn yr un mod os yw digwyddiad yn llwyddiannus, mae angen i ni ystyried pam fod ein Sustemau Dioglewch yn llwyddiannus, i sicrhau fod yr trefn debyg yn cael ei dilyn mewn digwyddiadau yn y dyfodol.

4.5.1. Adolygu Damweiniau a Digwyddiadau.

Mae'r Llyfr Cofnodi Damweiniau, a gedwir yn y Swyddfa Sirol, yn ddogfen bwysig o safbwynt eich galluogi i adnabod tueddiadau o ran damweiniau ac ymddygiad yn y CFfI. Mae disgwyliad clir gan yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Dioglewch fod unigolion sy'n gyfrifol am drefnu'r digwyddiadau a'r gweithgareddau hyn yn ystyried y tueddiadau ac yn gweithredu'n briodol i leihau risg ar gyfer y dyfodol.

5. TREFNIADAU CYFFREDINOL MEWN DIGWYDDIADAU

5.1 Adrodd am Ddamweiniau

Pe digwyddai damwain, mae'n bwysig fod Trefnydd y Digwyddiad a'r person a anafir (os yn bosibl) yn cyd-ysgrifennu cofnod o'r ddamwain. Dylid gwneud hyn â llawysgrifen yn y Ffurflen Adroddiad Damweiniau a ddarperir gan CFfI Cymru (gweler Atodiad 4).

Dylid cadw'r adroddiad yn y Llyfr Damweiniau a gedwir yn Swyddfa CFfI'r Sir ble digwyddodd y ddamwain. Efallai y bydd angen y wybodaeth a gynhwysir yn y Ffurflen Adroddiad Damweiniau yn y dyfodol gan y Gweithgor Iechyd a Dioglewch, os oes angen ymchwiliad i'r ddamwain gan yr heddlu, os oes amheuaeth o gyflawni trosedd, neu gan yr yswirwyr, os oes achosion iawndal yn deillio o'r ddamwain. Mae'n bwysig felly fod cofnod di-duedd a chywir o'r ddamwain yn yn cael ei gwblhau cyn gynted â phosibl ar ôl y digwyddiad.

Yn unol â'r Rheoliadau Cofnodi Anafiadau, Afiechydon a Digwyddiadau Peryglus (RIDDOR) 1995, fe all fod yn angenrheidiol i gyflwyno adroddiad am ddamwain. Gall hyn fod yn gyfrifoldeb y CFfI, neu fe all fod yn gyfrifoldeb y lleoliad sydd wedi'i logi gan y CFfI. Bydd angen i chi gadarnhau cyfrifoldeb pwy yw adrodd am y ddamwain.

Yn unol â Rheoliadau RIDDOR, mae'n rhaid cyflwyno adroddiad yn dilyn y digwyddiadau canlynol:

- marwolaeth;
- niwed difrifol;
- damwain sy'n achosi i'r sawl a glwyfir fod oddi wrth ei waith am fwy na thridiau;
- damweiniau i aelodau'r cyhoedd sy'n arwain at orfod mynd i'r ysbyty. Mae hyn yn cynnwys rhai sy'n gwylio digwyddiad, boed yn aelodau CFfI neu beidio. Hyd yn oed os ydynt yn gadael yr ysbyty'n ddiweddarach gydag ychydig neu ddim niwed, yn ôl y gofynion rhaid cyflwyno adroddiad;
- afiechydon yn gysylltedig â gwaith; a
- digwyddiadau peryglus (ble mae rhywbeth yn digwydd sydd ddim yn arwain at anaf y mae'n rhaid adrodd amdano, ond a all fod wedi achosi anaf o'r fath).

Mae Canolfan Cyswllt Digwyddiadau wedi'i sefydlu ar gyfer adrodd am ddamweiniau, ac mae manylion wedi'u cynnwys yn Atodiad 5 y ddogfen hwn.

5.1.1. Cymorth Cyntaf Mewn digwyddiadau CFfI.

Os ydych wedi trefnu gwasanaeth Cymorth Cyntaf megis y Groes Goch neu Brigâd Ambiwlans St. Ioan i fod yn bresennol yn eich digwyddiadau, bydd rhaid iddynt gyd-gysylltu eu Adroddiad Damwain gyda eich adroddiad chwi.

5.2 Trefniadau Tân

Mae'n bwysig, ymhob digwyddiad CFfI, i drefnydd y digwyddiad a/neu'r "person cyfrifol" a apwyntir ar gyfer y digwyddiad i fod yn ymwybodol o drefniadau gwagio'r adeilad/safle pe digwyddai tân.

Yn y cyd-destun hwn mae'n bwysig sicrhau fod yr holl allanfeydd tân yn cael eu cadw'n glir o unrhyw rwystrau, e.e. dodrefn. Dylai'r person cyfrifol wybod am y drefn o safbwynt seinio'r larwm dân a gwagio'r adeilad neu'r safle, a dylai aelodau CFfI sy'n mynychu'r digwyddiad fod yn ymwybodol o'r man ymgynnull ac mae person penodedig â chyfrifoldeb am alw'r frigâd dân.

6. HYFFORDDI AC ANWYTHO STAFF

Mae'n bwysig i adnabod, fel rhan o Bolisi Iechyd a Diogelwch, fod y mudiad, fel cyflogwr, â chyfrifoldeb o ran cynghori staff cyflogedig am y Polisi Iechyd a Dioglewch a'i weithrediad. Mae gan y mudiad hefyd gyfrifoldeb i gynghori gwirfoddolwyr sydd o dan ei gyfarwyddiaeth, ac a ystyrir yn "weithwyr" gan Ddeddfwriaeth Iechyd a Dioglewch. Ni ddylid bychanu pwysigrwydd y dasg ac mae CFfI Cymru'n argymell

yn gryf fod aelodau a chynghorwyr CFfI, wrth dderbyn cyfrifoldeb o'r fath, yn cyfarwyddo â gofynion eu cyfrifoldebau fel cyflogwr trwy fynychu hyfforddiant Iechyd a Diogelwch.

Mae hyfforddiant Iechyd a Diogelwch ar gael gan CFfI Cymru, eich Cyngor Sir, a mudiadau hyfforddi lleol, megis y Siambr Fasnach, Coleg Addysg Bellach, a darparwyr hyfforddiant annibynnol.

Dylid, os yn bosibl, ddyfarnu Tystysgrif Presenoldeb neu Gyrhaeddiad am fynychu digwyddiad o'r fath. Dylid caniatau i staff cyflogedig fynychu hyfforddiant o'r fath yn ystod eu horiau gwaith, ni ddylid disgwyl iddynt fynychu yn eu amser hamdden, onid ydynt yn dymuno gwneud hynny.

7. APWYNTIO SWYDDO IECHYD A DIOGLEWCH CFfI

Fel a grybwyllwyd uchod, argymhellir yn gryf i bob Ffederasiwn Sirol CFfI apwyntio person i arwain o safbwynt cymryd cyfrifoldeb am weithredu'r Polisi Iechyd a Dioglewch ymhob digwyddiad CFfI yn y Sir. Dylai'r rôl ymwneud â hyfforddiant a chefnogaeth gyson ar gyfer Clybiau sydd o fewn y Ffederasiwn Sirol.

Gellir dirpwyo'r cyfrifoldebau hyn i aelod staff cyflogedig, neu fe ellir eu dirprwyo i un o gefnogwyr profiadol y CFfI sydd â phrofiad ym maes Iechyd a Dioglewch.

Dylai'r sawl sy'n ymgymryd â'r dyletswyddau dderbyn cefnogaeth y Pwyllgor Gwaith CFfI. Dylai'r CFfI annog presenoldeb mewn digwyddiadau hyfforddi er mwyn diweddaru gwybodaeth am Ddeddfwriaeth Iechyd a Diogelwch, gan ei fod yn effeithio gweithgareddau CFfI, a darparu cefnogaeth ariannol i gwrdd â chostau'r hyfforddiant.

Ceir amlinelliad o ddisgrifiad swydd ar gyfer y Swyddog Iechyd a Dioglewch yn Atodiad 2.

8. RHESTR O DERMAU A DDEFNYDDIWYD

Cymwys – bod â'r lefel addas o sgliau, profiad a dealltwriaerth i ymgymryd â dyletswydd penodol yn unol â safon dderbyniol/orfodol.

Perygl – rhywbeth sydd â'r potensial i achosi niwed

Asesiad Risg – y broses o gyfrifo'r niwed potensial a all perygl ei achosi

Dull Diogel o Weithio – mae'n disgrifio'r broses o sefydlu amodau gwaith diogel ar gyfer gweithwyr cyflogedig, neu amgylchedd ddiogel i aelodau CFfI gymryd rhan mewn gweithgaredd CFfI

Difrifoldeb – y niwed/effaith potensial a allai ddigwydd

9. DARLLEN PELLACH/DEUNYDD CYFEIRIO

Successful Health and Safety Management HSG65. Cyhoeddwyd gan yr Awdurdod Gwewithredol Iechyd a Diogelwch.

Mudiad Ffermwyr Ifanc Cymru
Canolfan CFfI Cymru, Llanelwedd, Llanfair-ym-Muallt, Powys. LD2 3NJ
Ffôn: (00 44) 01982 553 502 Ffacs: (00 44) 01982 552 979 E-bost: gwybodaeth@yfc-wales.org.uk

POLISI IECHYD A DIOGELWCH

Mae Mudiad Ffermwyr Ifanc Cymru (y cyfeirir ato yma fel MFfIC) yn gyfrifol am iechyd a diogewlch ei weithwyr cyflogedig, aelodau CFfI ac unrhyw rai a effeithir gan unrhyw weithgaredd MFfIC.

Mae ein cyfrifoldebau yn ymestyn i gynnwys iechyd a diogelwch a lles o fewn MffIC yn ei gyfanrwydd trwy ein ymdrechion ein hunain a thrwy gydweithrediad a chydymffurfiad ein darparwyr/cyflenwyr.

Yr ydym yn ceisio ac yn croesawu argymhellion ar gyfer gwelliannau parhaus o du ein gweithwyr ein hunain ac eraill.

Ystyriwn Iechyd a Dioglewch yn ei ystyr ehangaf. O'n safbwynt ni, mae'n golygu amddiffyn rhag risg, marwolaeth, anaf ac afiechyd yn deillio o'n gweithgareddau.

Yr ydym yn derbyn fod ein cyfrifoldeb yn ymestyn i unrhyw un sy'n gysylltedig mewn unrhyw fodd â'n gweithgareddau; ei gweithlu; y rhai a gontractir i weithio yn ein hadeiladau ac mewn digwyddiadau a drefnir gan MFfIC; y cyhoedd yn gyffredinol o fewn ein eiddo neu wrth fynychu digwyddiad a drefnir gan MFfIC; a'n cymdogion.

Mae ein hymroddiad i fod yn fudiad diogel yn cynnwys:-

- *gwella Iechyd a Dioglewch trwy sefydlu amcanion a thargedau sy'n cyd-fynd â safonnau o ragoriaeth diffiniedig ar gyfer pob agwedd o ddarpariaeth gweithgareddau MFfIC*
- *bydd adnoddau addas yn cael eu darparu er mwyn sicrhau y gellir rheoli Iechyd a Dioglewch o fewn y mudiad*
- *annogir agwedd gadarnhaol o fewn y mudiad a bydd yr anogaeth hwn yn derbyn cefnogaeth yr uwch-reolwyr o fewn MFfIC*
- *sustemau monitro ac ymchwilio cadarn i'n galluogi i adnabod a gwerthuso'n drylwyr y dulliau o reoli risg*
- *darparu hyfforddiant, monitro ac adolygu addas yn ymwneud â gweithrediad y Polisi Iechyd a Dioglewch*
- *anoddefgarwch o fethiannau i greu dulliau diogel o weithio neu i gwrdd â deddfwriaeth, safonnau ffurfiol gweithdrefnau ac ymroddiadau.*

Mae Iechyd a Diogelwch yn hanfodol i bob contract a chytundeb masnachu rhwng yr holl gyrff y mae eu gweithgareddau yn dylanwadu ar fusnes a gweithgareddau MFfIC. Mae tystiolaeth o ymarfer rheoli Iechyd a Dioglewch dderbyniol yn amod mynediad i weithgareddau a digwyddiadau a bydd yn parhau i fod felly.

Mae ein hymroddiad i iechyd a diogelwch yn ddeinamig a byddwn yn adolygu'r polisi er mwyn rhoi ystyriaeth i unrhyw a phob gwelliant i iechyd, dioglewch a lles. Adolygir ein polisi yn flynyddol.

Yr wyf i, fel Prif Weithredwr, yn ymroi CFfI Cymru i gadw at yr egwyddorion a nodir yn y Datganiad Polisi hwn er sicrhau ein bod yn gweithredu ein busnes yn effeithiol ac effeithlon a byddwn yn darparu adnoddau addas ar gyfer y dibenion hyn. Mae gweithrediad y Polisi Iechyd a Dioglewch hwn wedi'i ddiprwyo ag awdurdod llawn i'r Bwrdd Rheoli, i weithredu fel sy'n addas ac mewn modd a fyddai'n gwarchod buddiannau Cyngor MffIC. Bydd y Bwrdd Rheoli felly yn gweithredu fel Pwyllgor Iechyd a Dioglewch MFfIC.

LLofnod:

.....

Enw: Lowri A Jones

.....

Safle: Prif Weithredwr

Dyddiad: .....

Atodiad 2

Enghraifft o Ddisgrifiad Swydd Swyddog Iechyd a Diogelwch a Apwyntir gan y CFfI

Pwrpas Y Rôl:

Sicrhau fod y CFfI yn Ffederasiwn Sirol .....yn cwrdd â'n hymroddiad i ddarparu amgylchedd ddiogel ar gyfer aelodau CFfI i fwynhau gweithgareddau CFfI, ac i sicrhau ein bod yn cwrdd â gofynion deddfwriaeth Iechyd a Dioglewch yn gyson, fel mae'n effeithio ar y CFfI.

Tasg Allweddol:

1) I ddarparu, yn uniongyrchol neu drwy drefniant allanol, hyfforddiant ar gyfer yr holl Arweinyddion Clwb yn y Ffederasiwn Sirol yn ymwneud â materion Iechyd a Dioglewch sy'n gysylltedig â gweithgareddau pobl ifanc yn y CFfI.

2) I ddarparu cefnogaeth gyson i'r holl arweinyddion clwb i'w cynorthwyo i ddarparu amgylchedd ddiogel ar gyfer holl weithgareddau'r Clwb.

3) I sicrhau yr adnabyddir "person cyfrifol" ym mhob digwyddiad CFfI a fydd â chyfrifoldeb am faterion Iechyd a Dioglewch sy'n gysylltedig â'r digwyddiadau hynny.

4) I sicrhau fod y person cyfrifol a adnabyddir yn cwblhau Asesiad Risg ar gyfer y digwyddiad, a bod yr Asesiad Risg yn addas a digonol ar gyfer y digwyddiad dan sylw.

5) I weithio â Phwyllgor Gwaith y Ffederasiwn Sirol CFfI i sicrhau fod yr unigolion a apwyntir i drefnu digwyddiadau CFfI yn berchen ar y sgiliau priodol ac yn gymwys.

6) I gynghori Pwyllgor Gwaith y Ffederasiwn Sirol CFfI ar bob mater Iechyd a Diogelwch perthnasol ac i ddarparu hyfforddiant a chefnogaeth a chyngor cyson fel sydd yn addas.

7) I gadw cyswllt ag asiantaethau eraill sy'n ymwneud â Iechyd a Diogelwch digwyddiadau CFfI, e.e. Adran Iechyd yr Amgylchedd, y Frigâd Dân, y Cyngor Sir, y Gwasanaeth Ieuenctid, ayyb.

Atodiad 3

RALI SIROL CFfI
ASESIAD RISG ENGHREIFFTIOL

ENW'R FFEDERASIWN SIROL .....

DYDDIAD Y RALI SIROL .....

LLEOLIAD

.....

TREFNYDD Y RALI .....
(*person cyfrifol*)

SAFLE O FEWN CFfI .....

Wrth gynllunio ar gyfer eich Rali Sirol, mae angen i chi edrych ar bob agwedd o'r Rali yn unigol, gan adnabod y peryglon potensial cysylltedig, gan weithredu trwy ddilyn y drefn a adnabyddir i ostwng y risg potensial i aelodau CFfI a'r cyhoedd, ac i gofnodi unrhyw weithredu gan ddefnyddio'r enghraifft a nodir isod. Yn y cyd-destun hwn, adnabyddir perygl fel y risg o..... yn digwydd oherwydd .....

Mae'r enghraifft wedi'i gynllunio i'ch cynorthwyo i weithio'n sustemataidd trwy'r holl gamau sy'n rhan o baratoadau eich Rali Sirol. Fe'i hanfonnir i chwi ar ffurf electronig oherwydd fod pob Rali yn amrywio a gallwch addasu yr enghraifft i gwrdd â'ch gofynion penodol. Bydd yn eich galluogi i gynnal Asesiad Risg ar bob agwedd o'r Rali – Asesu Risg yw adnabod y pethau a all fynd o'i le a chreu anaf/ niwed, ac y gellir gweithredu'n benodol i atal pethau rhag mynd o'u lle.

Mae'r broses Asesu Risg yn eglur. Ar gyfer pob rhan o'ch digwyddiad, mae angen asesu'r peryglon potensial a rhoi sgôr risg iddynt. Mae hyn yn gweithio fel a ganlyn:

